**Dyddiadur**

**Beth wnest ti?**
**Beth wnaethoch chi?**



**Cofia/Cofiwch:**
Es i     Des i
Ces i   Gwnes i

**Pa ferfau? (-ais, - on ni)**

| | |
|---|---|
| gweithiais i - gweithion ni | prynais i - prynon ni |
| gwelais i - gwelon ni | yfais i - yfon ni |

| Meddyliwch am: | Ble? e.e. | Pryd? e.e. | Gyda pwy? e.e. |
|---|---|---|---|
| | yn y parc<br>ar lan y môr<br>yn y gwaith | y bore yma<br>amser cinio/ar ôl cinio<br>y prynhawn yma | gyda ffrindiau<br>ar fy mhen fy hun<br>gyda Siân |

| Meddyliwch am: | Y tywydd | Disgrifiad | Barn / Teimladau |
|---|---|---|---|
| | Roedd hi'n ... | Roedd e'n gyffrous / ofnadwy. | Roeddwn i'n teimlo'n ... |

**Dyddiadur Dydd Sadwrn**

| **Dydd Sadwrn** |
|---|
| Roedd heddiw'n fendigedig.<br><br>Y bore yma, es i i feicio gyda Sam yn y parc. Roedd hi'n braf iawn.<br><br>Gwelon ni Jac yn y parc. Roedd e'n chwarae pêl-droed. Es i i chwarae pêl-droed gyda fe.<br><br>Amser cinio, es i i gael cinio gyda Sam a Jac mewn caffi bach. Roedd e'n flasus iawn.<br><br>Y prynhawn yma, es i i'r pwll nofio. Cerddais i adref.<br><br>Heno, es i i dŷ ffrindiau i gael swper. Cawson ni gyri cig oen, hufen iâ siocled a chwrw lleol. Ar ôl swper, edrychon ni ar hen luniau a chefais dacsi adre. Roeddwn i wrth fy modd.<br><br>Mwynheais i heddiw. |

## Ysgrifennu Dyddiadur

**Y tywydd:**

Roedd hi'n ...


braf


wlyb


oer


stormus

**Es i ...**

i'r gwaith



**Ces i ...**

gyfarfod



**Gwelais i ...**

Sam

fy mòs



**Roedd heddiw yn ...**

☺

**brysur**

**wych**

**gyffrous**

**Mwynheuais i.**

**Gweithiais i'n galed.**

**Roedd heddiw yn ...**

☹

**ddiflas**

**ofnadwy**

**siomedig**

**lafurus**

**galed**



## Dyddiadur penwythnos

| Dydd Sadwrn | Dydd Sul |
|---|---|
| Roedd hi'n braf.<br><br>Es i i Gaerdydd ar y bws. Es i i siopa. Ces i ddillad newydd.<br><br>Amser cinio, ces i frechdan ham a chaws yn y Becws- blasus iawn! Ces i darten ffrwythau a hufen hefyd.<br><br>Es i i'r sinema i weld ffilm.<br><br>Mwynheais heddiw! | Es i allan ar y beic gyda fy ffrindiau. Roedd hi'n braf iawn.<br><br>Yna, darllenais y papur newydd cyn cinio. Ces i ginio dydd Sul. Ar ôl cinio, es i am dro ar y traeth.<br><br>Ymlaciais i drwy'r dydd. |